YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

30 Mehefin 2025

Annwyl Riant / Warcheidwad,




**Athletau Ysgol 20/6/25:** Llongyfarchiadau i Lys Illtud a oedd yn fuddugol yn yr athletau eleni. Roedd Llys Dewi yn ail agos iawn, gyda Teilo yn 3ydd a Dyfrig yn 4ydd. Hoffwn ganmol pawb am eu cyfranogiad i greu diwrnod arbennig yn haul stadiwm Lecwydd.



**Pentre Taf:** Dros y pythefnos diwethaf mae Blwyddyn 8 wedi bod yn gweithio ar brosiect "Pentre Taf". Llwyddodd y timau i gyflwyno syniadau i banel o arbenigwyr o'n Fforwm Busnes. Diolchiadau mwyaf i'r busnesau a'r sefydliadau sydd wedi cefnogi yn ystod y Project: Un Blaned; Stable; Pepper Money; Seren; Andrew Scott; Kocho; Mott MacDonald; Companies House a Chyngor Caerdydd






**Gwyl Glantaf:** Cafwyd gwledd yng Ngwyl Glantaf eleni. Codwyd dros £2000 ar gyfer cysgodfeydd newydd i'r iard. Diolch i'r dosbarthiadau am drefnu'r stondinau a'r gweithgareddau, ac i bawb am eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth.

**Addasiadau *ClassCharts*:** Efallai bod rhai ohonoch wedi sylwi ambell newid o fewn *ClassCharts* yn yr wythnos ddiwethaf. Rydym yn rhedeg cyfnod o brofi mewnol er mwyn gweld sut gallwn wella ei ddefnydd er mwyn cryfhau ein systemau clod, canmol a disgyblaeth i'r flwyddyn academaidd newydd. Os oes unrhyw bryder gyda chi, cysylltwch a'r ysgol.







**Proms Glantaf:** Ymunwch â ni yn neuadd yr ysgol ar nos Lun 7fed o Orffennaf am 5pm ar gyfer cyngerdd offerynnol i ddathlu doniau'r flwyddyn. Perfformiadau gan y Gerddorfa, Band Jazz, Unawdau a pherfformiadau o Eisteddfod yr Urdd. Croeso i bawb. Tocynnau ar ParentPay. £2 am oedolyn, £0 i blant.

**Arddangosfa Celf:** Ymunwch a ni ar yr 2il o Orffennaf rhwng 5 a 7yh i werthfawrogi talentau celf ein dysgwyr TGAU a Safon Uwch. Bydd Anthony Evans yn beirniadu. Croeso cynnes i bawb yn Neuadd Glantaf.

**Sioe Gerdd! Mae'r gyfrinach mas!:** Bydd yr ysgol yn perfformio 'Oliver' ar ei newydd wedd ym mis Tachwedd 2025 a rydym yn chwilio am ein Oli; Nansi a'n Dodger! Ydych chi'n barod i fwynhau a chyd-weithio gyda chriw o bobl ifanc talentog? Ydych chi'n barod i fod yn rhan o'r ensemble? Ydych chi'n barod i dorri'r pedwerydd wal a chyfarch y gynulleidfa? Wel, os mai "Bendant!" yw ymateb eich plentyn yna danfonwch nhw draw i Ystafell P3 ar ddydd Mawrth neu ddydd Iau (1af & 3ydd o Orffennaf) yn ystod eu hamser cinio. Dyma pryd byddwn yn cynnal ein clyweliadau ar gyfer prif gymeriadau y sioe gerdd 'Oli!' - y rhannau sy'n siarad ac yn canu'n unigol. Bydd angen iddynt baratoi cân fydd o leiaf yn 2 funud o hyd i'w berfformio o flaen athrawon Drama a Cherdd yr ysgol. Pob lwc ac edrychwn ymlaen i groesawu nifer o ddisgyblion!








**Dawns Ffarwel Bl11 /Bl13:** Chwerw-felys yw ffarwelio gyda nifer o'n dysgwyr ond cafwyd dwy noson fythgofiadwy yng Nghwestai'r Hilton a'r Gyfnewidfa Lo dros yr wythnos ddiwethaf. Diolch i bawb wnaeth drefnu a phob hwyl "am y tro" i'r bobl ifanc sydd wedi gweithio mor galed dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Taith Merched Bl9 i Lundain**: Taith gofiadwy i Lundain gyda thîm prosiect Grymuso Merched Blwyddyn 9. Uchafbwynt y daith oedd ein hymweliad â Mulberry Academy Shoreditch, lle cafodd merched y ddwy ysgol gyfle i gymryd rhan mewn sgyrsiau ystyrlon am faterion allweddol sy'n effeithio ar fenywod ifanc heddiw.



**Balch Cymru:** Roedd yr ysgol yn falch iawn i gymryd rhan yng ngorymdaith Balch Cymru eleni eto. Braf oedd gweld cynrychiolaeth o gymaint o deulu Glantaf.

**<u>Dyddiadau/Digwyddiadau Diwedd Tymor:</u>**

30/6: Alldaith DC Efydd
2/7: Gêm derfynol Cwpan Prydain Rygbi XIII Bl8
2/7: Arddangosfa Celf am 5-7pm
3/7: Taith Bl7 – Heatherton
7/7: Taith Boulogne Bl9&10 / Taith y Ganolfan
7/7: Proms Glantaf am 5pm
10/7: Taith Bl8 a Bl10 : Drayton Manor
14/7: Alldaith DC Arian: Gwyr / Profiad Gwaith Bl 12
15/7: Prynhawn Gwobrwyo Canolfan Glantaf am 1.30pm
18/7: Diwrnod olaf tymor yr haf (am 1.30pm)
3/9: Dechrau tymor yr hydref (Bl 7&12)
4/9: Dechrau tymor yr hydref (pawb)

Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus gydol y tymor diwethaf, bydd adroddiadau diwedd y flwyddyn yn eich cyraedd yn wythnos olaf y tymor,

Yn gywir iawn,

Mr Dafydd Owens,
Uwch Athro

